ATODLEN 1

Safonau ansawdd aer

# RHAN 4

## Gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor ar gyfer osôn

**3.** Yn y Rhan hon—

(a) rhaid mynegi pob gwerth mewn µg/m$^3$;

(b) rhaid safoni'r cyfaint yn ôl yr amodau tymheredd a phwysedd canlynol: 293K a 101.3kPa;

(c) rhaid nodi'r amser mewn Amser Ewropeaidd Canolog;

(ch) ystyr "AOT40" (wedi'i fynegi mewn (µg/m$^3$) awr) yw swm y gwahaniaeth rhwng crynodiadau yn ôl yr awr sy'n uwch na 80 µg/m$^3$ (sy'n hafal i 40 rhan fesul biliwn) a 80 µg/m$^3$ dros gyfnod penodol trwy ddefnyddio'r gwerthoedd 1 awr yn unig a'r rheini wedi'u mesur rhwng 8:00 ac 20:00 Amser Ewropeaidd Canolog bob dydd; a

(d) er mwyn bod yn ddilys, rhaid i'r data blynyddol ar ormodiannau a ddefnyddir i wirio cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed ac amcanion hirdymor, fodloni'r meini prawf a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 12.

### Gwerthoedd targed

| | Paramedr | Gwerth targed ar gyfer 2010[(1)] |
|---|---|---|
| Gwerth targed ar gyfer diogelu iechyd pobl | Y cymedr 8 awr dyddiol uchaf[(2)] | 120 µg/m$^3$, sef sef ffigur na ddylid mynd yn uwch nag ef ar fwy na 25 diwrnod fesul blwyddyn galendr a hynny wedi'i gyfartaleddu dros dair blynedd[(3)] |
| Gwerth targed ar gyfer dros diogelu llystyfiant | AOT40, wedi'i gyfrifo o werthoedd 1 awr o Fai i Orffennaf | 18,000 µg/m$^3$.h wedi'i gyfartaleddu bum mlynedd[(3)] |

**(1)** Asesir cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed yn ôl y gwerth hwn; hynny yw, 2010 fydd y flwyddyn gyntaf y defnyddir y data ar ei chyfer i gyfrifo cydymffurfedd dros dair neu bum mlynedd, fel y bo'n briodol.

**(2)** Rhaid dethol crynodiad y cymedr 8 awr dyddiol uchaf drwy archwilio cyfartaleddau cyfredol 8 awr, wedi'u cyfrifo o ddata yn ôl yr awr ac wedi'u diweddaru bob awr. Rhaid priodoli pob cyfartaledd 8 awr sydd wedi'i gyfrifo felly i'r diwrnod y mae'n dod i ben arno; hynny yw, y cyfnod cyfrifo cyntaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod o 17:00 ar y diwrnod cynt i 01:00 ar y diwrnod hwnnw; y cyfnod cyfrifo olaf ar gyfer unrhyw un diwrnod fydd y cyfnod o 16:00 i 24:00 ar y diwrnod hwnnw.

**(3)** Os nad oes modd penderfynu'r cyfartaleddau tair-blynedd neu'r cyfartaleddau pum-mlynedd ar sail set gyflawn ac olynol o ddata blynyddol, rhaid bod isafswm y data blynyddol sy'n ofynnol ar gyfer gwirio cydymffurfedd â'r gwerthoedd targed fel a ganlyn: (i) ar gyfer y gwerth targed ar gyfer diogelu iechyd pobl, data dilys ar gyfer blwyddyn, a (ii) ar gyfer y gwerth targed ar gyfer diogelu llystyfiant, data dilys ar gyfer tair blynedd.

**Amcanion hirdymor**

| | *Paramedr* | *Yr amcan hirdymor* |
|---|---|---|
| Amcan hirdymor ar gyfer diogelu iechyd pobl | Y cymedr 8 awr dyddiol uchaf o fewn blwyddyn galendr | 120 µg/$m^3$ |
| Amcan hirdymor ar gyfer diogelu llystyfiant | AOT40, wedi'i gyfrifo o werthoedd 1-awr o Fai i Orffennaf | 6,000 µg/$m^3$.h |